**Tystiolaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru**

**Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Fuddsoddi Cyfalaf mewn Ysgolion**

**Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

## Diben

1. Mae'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn croesawu adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Fuddsoddi Cyfalaf mewn Ysgolion. Mae'n darparu cyfres ddefnyddiol o argymhellion sy'n cefnogi'r cyfeiriad y mae'r rhaglen newydd ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion yn anelu ato.

2. Yn unol â chyngor gan Glerc y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae'r Papur Tystiolaeth hwn yn rhoi crynodeb o sefyllfa bresennol y rhaglen buddsoddi cyfalaf newydd, sef Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

## Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif

3. Mae cytundeb 'Cymru'n Un' yn cynnwys ymrwymiad i greu Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif; dylai ysgolion fod yn "addas at y diben"; a dylai rhaglen buddsoddi cyfalaf fawr i uwchraddio adeiladau ysgolion, sy'n defnyddio mwy o arian na'r hyn a ddarparwyd yn ystod tymor blaenorol y Cynulliad, barhau.

4. Gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o'i rhaglenni cyfalaf blaenorol (y Fargen Newydd i Ysgolion a'r Grant Gwella Adeiladau Ysgolion) a rhaglenni buddsoddi cyfalaf ar gyfer ysgolion yn Lloegr, nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru fod y gwaith o foderneiddio yn ystad Ysgolion Cymru a buddsoddi ynddi yn wynebu tri phrif rwystr: cynllunio byrdymor (yn rhannol oherwydd diffyg sicrwydd arian); diffyg eglurder (oherwydd nad oedd unrhyw ddiffiniad clir o'r hyn a ddisgwyliwyd, neu beth a oedd yn bosibl); a gallu ac adnoddau annigonol (oherwydd profiad cyfyngedig o ran cynllunio, llywio a darparu prosiectau/rhaglenni buddsoddi cyfalaf mawr).

5. Y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yw ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r diffygion hyn. Fframwaith darparu newydd ar gyfer buddsoddi cyfalaf yw'r rhaglen hon a bydd yn ei gwneud yn bosibl i greu cenhedlaeth newydd o ysgolion, hwyluso'r broses o ad-drefnu ysgolion, trawsnewid addysg a gweithredu cwricwlwm yr 21ain Ganrif yn llawn. Mae'r rhaglen yn cael ei llunio ar y cyd drwy fodel cydweithredu rhwng yr holl

brif randdeiliaid. Ar Fwrdd y Rhaglen mae cynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Leol (a gynrychiolir gan Gymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru), Colegau Cymru, Awdurdodau Addysg Esgobaethol a swyddogion o'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

6. Lansiwyd y rhaglen yn swyddogol ym mis Mawrth 2009 a'i nodau cyffredinol yw:

- Amgylcheddau dysgu i blant a phobl ifanc rhwng 3 a 19 oed yng Nghymru a fydd yn helpu i wella ysgolion a sicrhau gwell canlyniadau addysgol;
- System addysg gynaliadwy drwy wneud gwell defnydd o adnoddau i wella effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd yr ystad addysg, ac sy'n gwella gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir yn lleol;
- Safon Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif i'r holl ysgolion yng Nghymru sy'n lleihau costau rheolaidd, eu defnydd o ynni ac allyriadau carbon.

**Cynllunio a Darparu'r Rhaglen**

7. Mewn cyferbyniad â hen grantiau'r Fargen Newydd a Gwella Adeiladau Ysgolion, bydd y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn rhaglen fudsoddi hirdymor. Ar hyn o bryd mae'r broses gynllunio wedi'i seilio ar y dybiaeth y bydd y rhaglen hon yn rhedeg am o leiaf 10 mlynedd.

8. Mae awdurdodau lleol wrthi'n paratoi i gyflwyno Rhaglenni Amlinellol Strategol ym mis Rhagfyr 2010 a fydd yn amlinellu eu buddsoddiad arfaethedig dros y 10 mlynedd nesaf. Ar ôl i'r Rhaglenni Amlinellol Strategol gael eu cyflwyno a'u hasesu, caiff rhaglen genedlaethol ei llunio.

9. Bydd y Rhaglenni Amlinellol Strategol yn nodi'r mentrau a'r camau y gellir eu rhoi ar waith ym mhob awdurdod i gyflawni tri nod allweddol y rhaglen genedlaethol. Wrth ddatblygu eu Rhaglenni Amlinellol Strategol, bydd Awdurdodau Lleol yn nodi eu strategaethau ehangach sydd eu hangen i wella ysgolion a sicrhau canlyniadau llwyddiannus i blant a phobl ifanc. Er enghraifft, bydd awdurdodau lleol yn pennu sut mae eu cynigion buddsoddi yn ymwneud â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, yn dangos sut maent yn bwriadu trawsnewid dulliau addysgu a dysgu, a gwella effeithlonrwydd yr ystad drwy ad-drefnu ysgolion. Bydd y Rhaglenni Amlinellol Strategol hefyd yn sbardun cychwynnol allweddol i'r broses o ad-drefnu ysgolion gan y bydd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol nodi eu strategaethau ar gyfer ad-drefnu ysgolion fel eu bod yn barod i roi'r rhaglen ar waith.

10. Bydd pa mor gyflym y caiff y rhaglen ei darparu yn dibynnu ar y buddsoddiad cyfalaf sydd ar gael i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdodau Lleol dros y cyfnod hwn.

11. Er mwyn cynorthwyo awdurdodau, bydd y rhaglen yn darparu cymorth priodol o ran gallu ac adnoddau lle bo angen a hynny ar sail hyblyg a dargedir. Mae cymorth ar y cam cychwynnol hwn wedi canolbwyntio ar y broses o gynllunio buddsoddiad cyfalaf gyda chymorth arbenigol yn cael ei ddarparu i'r holl awdurdodau ddatblygu eu Rhaglenni Amlinellol Strategol. Yn ystod y cam o ddarparu'r rhaglen, caiff arbenigedd technegol a phroffesiynol perthnasol sydd ei angen i weithredu rhaglen fuddsoddi ar raddfa fawr ei ddarparu hefyd mewn meysydd megis cynllunio strategol, eiddo, addysg, cyllid, cyfreithiol, rheoli newid a TGCh.

12. Mae arolwg lefel uchel o'r ystad ysgolion wedi'i gynnal, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, ysgolion ac awdurdodau esgobaethol, i ddarparu cyfres gynhwysfawr a chyson o ddata rheoli asedau sy'n cwmpasu cyflwr, addasrwydd a digonolrwydd. Bydd y wybodaeth hon yn gwella'r broses o gynllunio buddsoddiad cyfalaf yn genedlaethol ac o fewn awdurdodau lleol. Yn fwy penodol, bydd yn helpu awdurdodau i ddatblygu rhaglen cyfalaf cynnal a chadw hyddysg dros oes eu hasedau.

13. Rydym yn sefydlu fframwaith a methodoleg gwerthuso ôl-ddeiliadaeth. Mae hyn yn hanfodol gan y bydd yn rhoi darlun cywir o lwyddiant cyffredinol prosiectau a gefnogir gan y rhaglen ac fe'i defnyddir i lywio'r broses o gynllunio buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol. Bydd y fframwaith gwerthuso yn cynnwys ac yn mesur perfformiad yr adeilad a'r tir, a'u heffaith ar swyddogaeth, addysg, dysgu a ffactorau cymdeithasol. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gwerthuso effaith y buddsoddiad cyfalaf dros oes y rhaglen ar lefel genedlaethol a lleol.

**Cwmpas y Rhaglen a Diffiniad o'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif**

14. Cyn i'r rhaglen newydd hon gael ei datblygu, roedd Awdurdodau Lleol yn gweithio yn unol â safon "addas at y diben"; fodd bynnag, nid oedd diffiniad cadarn o'r safon hon ar gael. Daeth yn amlwg o'r Grant Gwella Adeiladau Ysgolion nad oedd awdurdodau yn dehongli'r safon yn yr un ffordd ac roedd uchelgais amrywiol eu cynlluniau cyfalaf yn adlewyrchu hyn.

15. Mae Bwrdd y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif wedi cytuno ar ddiffiniad lefel uchel ac mae hwn i'w weld yn **Atodiad 1**. Mae cwmpas y rhaglen yn uchelgeisiol ac yn wahanol i'r rhaglen Grant Gwella Adeiladau Ysgolion blaenorol mae'n fwy na rhaglen o fuddsoddi mewn brics a mortar. Er enghraifft, un o themâu allweddol y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif fydd buddsoddi mewn technoleg. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu cynigion ar sut y gall buddsoddi mewn TGCh, fel rhan sylweddol o'r rhaglen, arwain at greu amgylcheddau dysgu dwys eu technoleg; a hynny fel rhan o'r rhaglen adeiladu ffisegol a hefyd mewn ysgolion lle mae'r adeiladau yn gadarn ac nad oes angen gwaith ailstrwythuro sylweddol arnynt i fynd i'r afael â'r mater o leoedd gwag.

16. Caiff y diffiniad lefel uchel ei ategu gan gyfres briodol o adnoddau, canllawiau a strategaethau a fydd yn rhoi cyfeiriad clir i awdurdodau i'w galluogi i ddarparu asedau addysg sy'n bodloni safon Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Wrth ddatblygu'r safon hon, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio arfer gorau cenedlaethol a rhyngwladol.

17. Mae nifer o ffrydiau gwaith ar waith ar hyn o bryd i ddatblygu'r safon yn y meysydd canlynol: safonau gofod, dehongli gofynion statudol, safonau amgylcheddol, cynllunio ysgolion carbon isel a chynaliadwy, dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, TGCh, llwybrau caffael, rheoli prosiectau, cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses gynllunio, materion eraill a allai gynnwys trefniadau arlwyo a bwyta, a methodoleg safonol ar gyfer rhagweld costau oes gyfan.

**Ariannu'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif**

18. Er mwyn darparu'r buddsoddiad angenrheidiol i wneud gwaith adeiladu ac adnewyddu sylweddol, ac ad-drefnu ysgolion ledled Cymru, roedd angen newid y ffordd y caiff cyfalaf ei ddyrannu yn sylweddol drwy'r rhaglen. Mae'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn flaenraglen hirdymor a fydd yn blaenoriaethu ac yn defnyddio buddsoddiad cyfalaf mewn cyfres o fandiau ariannu dros y 10 mlynedd nesaf.

19. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ac mae trefniadau ariannu trosiannol wedi bod ar waith ers 2009-10. Nod yr arian trosiannol hwn yw gweithredu newidiadau cynyddol a thargedu adnoddau cyfalaf at brosiectau: sy'n barod; y mae angen adnoddau arnynt i sicrhau newidiadau/buddsoddiadau mwy sylweddol ar raddfa fwy; a pharatoi'r system ar gyfer y broses o newid i raglen fuddsoddi ar gyfer Cymru gyfan drwy gynyddu'r raddfa a'r safonau gofynnol. Mae'r trefniadau trosiannol hyn wedi'u gweithredu ar ffurf tair cyfran wahanol o ddyraniadau. Mae'r rhaglen fuddsoddi drosiannol, a sefydlwyd yn 2009-10, yn buddsoddi hyd

at £434.4 miliwn ar hyn o bryd a bydd ar waith hyd at 2016-17. Bydd yr arian trosiannol yn dod yn rhan o fuddsoddiad y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif pan gytunir ar hynny.

20. Mae'r arian trosiannol hefyd wedi galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddefnyddio ei chyfalaf i helpu i gyflawni'r Agenda Drawsnewid drwy gysoni ei buddsoddiad cyfalaf ar gyfer ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach ac ystyried y ddarpariaeth i bobl ifanc 14-19 yn lleol. Mae'r rhaglen yn cefnogi dull mwy strategol o fuddsoddi cyfalaf mewn ysgolion drwy newid o broses ariannu sy'n bennaf seiliedig ar ddyraniadau fformiwläig blynyddol i broses ddyrannu sy'n seiliedig ar flaenfuddsoddi gyda grantiau cyfalaf yn cael eu blaenoriaethu a'u defnyddio mewn cyfres o fandiau ariannu.

21. Er enghraifft, mae'r prosiect 'Learning Works' yng Nglynebwy, Blaenau Gwent yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Awdurdod Lleol, Coleg Gwent a Phrifysgol Cymru, Casnewydd. Fel un fenter arian cyfalaf, mae'n dwyn ynghyd bob un o'r sectorau addysg ar un safle; o ddarpariaeth ysgol i blant 3-16 oed, (gan gynnwys Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig), i barth dysgu ôl-16.

**Casgliad**

22. I grynhoi, mae'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn mabwysiadu dull mwy strategol drwy gryfhau ei phroses o gynllunio buddsoddiad cyfalaf ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'r rhaglen yn nodi diwedd y dull tameidiog o fuddsoddi cyfalaf mewn ysgolion ac yn symud ymlaen at raglen fuddsoddi hirdymor.

**Yr Adran Plant, Addysg,**
**Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

**Hydref 2010**

**Atodiad 1**

**Diffiniad Lefel Uchel y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21$^{ain}$ Ganrif**

- Bydd ysgolion a ad-drefnir i ymateb i ddulliau newydd o addysgu a dysgu a gaiff eu nodi yn y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'u llywio ganddo, arweinyddiaeth gryfach mewn ysgolion a chynnwys cymuned yr ysgol, yn adlewyrchu anghenion lleol ac yn helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial.
- Ysgolion o'r meintiau cywir yn y lleoedd cywir.
- Amgylcheddau ysbrydoledig, sy'n briodol i ddatblygiadau a thechnolegau addysgol newydd, sy'n effeithlon ond yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion newidiol y dyfodol hyd at 2030 a thu hwnt.
- Amgylcheddau cynaliadwy o'r radd flaenaf lle gall athrawon addysgu a lle gall dysgwyr ddysgu, a gaiff eu cefnogi'n llawn gan TGCh, sy'n llywio gwelliannau mewn safonau addysgol, ac yn mynd i'r afael â phroblemau newid yn yr hinsawdd.
- Yn gynhwysol, gan gynnig darpariaeth briodol i ddiwallu anghenion dysgu unigol pob dysgwr, lleoedd sy'n gwneud i'r sawl ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau deimlo bod eu hanghenion yn cael eu parchu, ac sy'n galluogi pob aelod o weithlu'r ysgol i weithio, gorffwys a chymdeithasu.
- Adnodd eithriadol i'r gymuned gyfan a all gynnig amrywiaeth o gyfleusterau ar yr un safle megis gofal plant, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a hyfforddiant i oedolion.
- Cyfle i ysgolion a gwasanaethau eraill weithio ar y cyd er mwyn gwella addysgu a dysgu a chysylltu'n fwy effeithiol â'r blynyddoedd cynnar a'r agenda drawsnewid i bobl ifanc 14-19 oed.